

Dim

TRAETHYDD	Nofel am ddau frawd, Gwyn ac Owain, sy'n byw ar fferm yn Nyffryn Ceiriog ydy <i>Dim</i> .
OWAIN	Dwi'n mynd i ambushio'r <i>enemy</i> !
TRAETHYDD	Breuddwyd Owain ydy ymuno efo'r SAS ac ymladd dros ei wlad, Prydain. Mae Gwyn yn hapus yn ei wlad, a'i fyd bach ei hun, Cymru.
GWYN	Tydi natur yn wych? Heblaw am y baw gwartheg! Dom yn neis!
TRAETHYDD	Jôc wael. Mae pethau'n wahanol yn ysgol y dre.
CEFNDIR	<i>LLEISIAU LA-DI-DA'N SIARAD SAESNEG</i>
GWYN	Mae'r lle 'ma'n llawn blydi crachach.
CEFNDIR	<i>WELSH WOG</i>
GWYN	Pwy ddwedodd hynna?
OWAIN	Hei! <i>Go with the flow</i> , frawd mawr.
GWYN	Grrr!
TRAETHYDD	Erbyn diwedd y saithdegau, roedd Gwyn ym Mhrifysgol Bangor ac Owain efo'r SAS. A, ie, y saithdegau. Cyfnod cythryblus yn hanes ffasiwn a gwleidyddiaeth Prydain.
GWYN	Dim ehangu Prifysgol Bangor!
TRAETHYDD	Roedd Gwyn wrthi'n protestio ac yn poeni am ddyfodol yr iaith.
GWYN	Dwi'n poeni am dyfodol yr iaith.
TRAETHYDD	Wff! A fi, ti angen treiglo, mêt – ddyfodol.

Bitesize

GWYN	Ie, ddyfodol!
TRAETHYDD	Ac yn annog pobl i bleidleisio dros ddatganoli ... Tra 'roedd Owain yn teithio'r byd yn ymladd efo'r SAS, yn gyntaf yn Zimbabwe, ac yna yng Ngogledd Iwerddon.
CEFNDIR	<i>SŴN BOMIAU A GYNNAU</i>
TRAETHYDD	Pwa! Beth 'di'r oglau 'na?
OWAIN	Dom i'w roi o dan y Cortina.
TRAETHYDD	Bom, ddim dom! Be ti'n trio'i 'neud? Eu chwythu nhw i fyny neu eu mygu nhw?!
	Bomiodd Owain Gortina efo tri aelod o'r IRA ynddo fo. Job dda yn ôl ei fosys ...
	Yn fuan ar ôl hynny, cafodd ei daflu allan o'r fyddin am saethu dyn o'r enw O'Leary.
OWAIN	Ddeudodd neb ei fod o ar ein hochr ni.
TRAETHYDD	Ai set-up oedd hyn? Roedd Owain ar fin cael y sac, ond newidiodd popeth pan gynigiodd Paul Longshaw swydd iddo fel ' <i>insurgent</i> '.
OWAIN	Be 'di ' <i>insurgent</i> '? O!
TRAETHYDD	Roedd Owain rŵan yn gwneud pethau amheus yn enw Llywodraeth Prydain ... Fel brifo pobl a rhoi'r bai ar yr IRA ... A llosgi tai haf gan ddweud taw Meibion Glyndŵr wnaeth. Y Falklands oedd cyrch nesa Owain. Doedd o ddim yn cytuno efo beth oedd ei fosys yn gwneud, felly dechreuodd gasglu gwybodaeth yn gyfrinachol.
OWAIN	Hei, shh! Paid â dweud wrth bawb! Neu fydd hi'n ... arna i.
TRAETHYDD	Yn anffodus, bu farw Owain yn y Falklands. Rhywbeth

Bitesize

i'w wneud efo'i hofrennydd yn plymio i'r dŵr ... Hmmm.
Ond be' am Gwyn?

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae Gwyn – sydd
rŵan yn briod efo Rhian – yn derbyn cerdyn post o Bern,
yn yr Almaen.

RHIAN Mae 'na gerdyn post i ti, cariad.

GWYN Cerdyn post gan fy mrawd sy wedi marw? 'Sdim rhyfedd
gymerodd e ddeng mlynedd - stamp ail ddosbarth sydd
arno. Reit, ble mae fy mhasport i?

TRAETHYDD Draw yn yr Almaen, mae'n derbyn amlen gan
weithiwr banc.

GWYN Tudalennau o gyfrinachau a rhestr o enwau.
A be 'di hwn?

Plis gyrra hwn i Lysgennad yr Unol Daleithiau, oddi wrth
dy frawd, Owain.

Typical – dim stamp!

TRAETHYDD Fisoedd yn ddiweddarach, mae Gwyn yn gweld
rhywbeth diddorol yn y papurau.

GWYN Rhian! Ti'n gwybod y rhestr o enwau oedd yn amlen
gyfrinachol Owain? Wel, maen nhw i gyd wedi marw
mewn damwain hofrennydd. Rhyfedd, 'de?

RHIAN Falle mai'r Americanwyr lladdodd nhw?

GWYN Y?

RHIAN Falle cawson nhw wared ar y bobl oedd yn amharu ar
broses heddwch Gogledd Iwerddon.

GWYN A gyda nhw allan o'r ffordd, byddai'n haws dod i
gytundeb heddwch!

RHIAN Sbia! Mae'r Americanwyr wrthi'n brocera heddwch yng
Ngogledd Iwerddon.

GWYN Falle taw cyfrinachau Owain oedd yr union wybodaeth
roedden nhw ei hangen.